

# Adroddiad Blynyddol Rheoli Perfformiad Corfforaethol **2020/2021**

Perfformiad corfforaethol o'i gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol




**Perfformiad o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol:**

| | |
|---|---|
| GWELLA | Perfformiad gwell |
| SEFYDLOG | Perfformiad yr un fath |
| DIRYWIO | Perfformiad gwaeth |
| DIM TUEDD | Dangosydd newydd – Dim cymhariaeth hanesyddol |



Allwedd y Graffiau
Cyfeirnod DP
Cyfnod-os nad yw'n chwarterol
Cyfeiriad
Data hanesyddol ar gyfer nodi'r llinell sylfaen
Canlyniad yn well na'r targed
Canlyniad wedi methu'r targed o <5%
Canlyniad wedi methu'r targed o 5%+
Dim targed wedi'i osod oherwydd Covid-19
Llinell targed
20
15
10
5
0
Chtr 1
Chtr 2
Chtr 3
Chtr 4
2016/17
2017/18
2018/19
2019/20
2020/21

Yn amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi wynebu heriau digynsail i gynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal yn ddiogel.

O ystyried effaith y pandemig ar ein poblogaeth, y tarfu difrifol ar ddarparu gwasanaethau'n rheolaidd a'r effeithiau ar ein gweithlu, byddem wedi disgwyl effaith ddifrifol ar berfformiad.

Fodd bynnag, mae ein perfformiad wedi aros yn dda.

Mae hyn yn dyst i wydnwch, ymrwymiad a gwaith caled rheolwyr a staff ar draws y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol, y cyngor ehangach a'n partneriaid o'r sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol.

Eleni, ar draws y gwasanaethau i oedolion rydym wedi darparu hyd yn oed mwy o ofal a chymorth, er yn wahanol iawn a chyda mwy o bwyslais ar ymyriadau ailalluogi ac adfer tymor byr.

Rydym wedi lleihau nifer yr adolygiadau a gynlluniwyd a gynhaliwyd er mwyn blaenoriaethu cymorth brys ond rydym yn gwneud cynnydd o ran dal i fyny â'r ôl-groniad.

Yn yr un modd, bu'n rhaid i ni leihau nifer y staff dros dro yn ein tîm sy'n cynnal asesiadau DoLS ond mae'r tîm bellach yn ôl i'w nifer blaenorol ac mae perfformiad wedi gwella wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

Sefydlwyd y tîm diogelu oedolion newydd ac mae adborth ar ansawdd eu gwaith gan amrywiaeth o bartneriaid yn dangos bod y trefniadau newydd hynny sy'n canolbwyntio ar roi'r person wrth wraidd y broses ddiogelu wedi trawsnewid ein hymagwedd.

Mae ein carfan estynedig o gydlynwyr ardaloedd lleol wedi bod wrth wraidd gwaith gyda chymunedau ac mewn cymunedau yn ystod adegau gwaethaf y pandemig ac mae’r tystlythyrau o'r gwahaniaeth y maent wedi'i wneud wedi bod yn rhyfeddol.

Ni ddylai dim un o'r uchod tynnu oddi wrth yr effaith enfawr y mae COVID wedi’i chael ar yr unigolion hynny sy'n derbyn gofal a chymorth a'u gofalwyr.

Mae ein gallu i ddarparu cymorth uniongyrchol yn y ffordd y byddem yn ei wneud fel arfer wedi bod yn gyfyngedig, ac yn parhau i fod yn gyfyngedig iawn. Hyd yn oed gyda'n holl wasanaethau bellach ar agor, mae'r cyfyngiadau ar allu, sy'n ofynnol oherwydd cadw pellter cymdeithasol yn golygu mai tua thraean o unigolion yn unig y gallwn eu cefnogi yn y ffordd y byddem wedi’u cefnogi cyn y pandemig.

Mae COVID wedi cael effaith ddinistriol mewn cartrefi gofal ledled y DU ac efallai bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i sefydlogi'r sector.

Yn y gwasanaethau plant, roeddem yn pryderu y gallai absenoldeb y cymorth cymdeithasol a'r diogelu arferol a ddarperir gan ysgolion a'r isadeiledd cefnogi cymunedol arferol yn ystod cyfnodau estynedig y cyfyngiadau symud arwain at gynnydd sylweddol mewn pryderon amddiffyn plant a'r risg o deulu'n chwalu.

Gweithiodd y gwasanaethau plant yn galed gyda chydweithwyr mewn addysg, ysgolion a phartneriaid eraill i liniaru'r risg honno yn y ffordd orau.
Rydym wedi gweld cynnydd yng nghymhlethdod anghenion plant a theuluoedd wrth iddynt ymddangos wrth ddrws ffrynt ein gwasanaethau ond yn galonogol rydym wedi bod yn hynod effeithiol wrth barhau i gefnogi plant i gadw'n ddiogel ac yn iach o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau, ac o ganlyniad mae niferoedd plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng eleni.


Er gwaethaf y cyfyngiadau ar ein gallu i ddarparu ein gwasanaethau cymorth cynnar fel y bwriadwyd eleni, rydym wedi gweld nifer mwy o blant a theuluoedd yn cael eu dargyfeirio'n ddiogel a'u cefnogi gan y gwasanaethau hynny sy'n caniatáu i wasanaethau plant statudol ganolbwyntio ar gefnogi'r plant hynny sydd â'r lefel uchaf o anghenion.

Bu effaith andwyol ar berfformiad asesu a rhai o'r prosesau ffurfiol eraill y mae'n ofynnol i ni eu dilyn ond o ystyried y gostyngiadau sylweddol a gafwyd yn argaeledd y gweithlu eleni, mae'r gostyngiadau hyn yn llawer llai nag y gallem fod wedi'u rhagweld.


Ni ellir ei nodi'n ddigon aml, mae'r perfformiad a gyflawnwyd eleni mewn amgylchiadau na allai'r un ohonom fod wedi'i ddychmygu, yn wyrthiol. Mae ein gweithlu, ein rheolwyr rheng flaen, ein Penaethiaid Gwasanaeth a'u huwch-dimau rheoli wedi cyflawni pethau eithriadol a dylent oll fod yn hynod falch.

Perfformiad corfforaethol o'i gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol

2020/2021




AS10 ⇧
Canran yr adolygiadau blynyddol o gynlluniau gofal a chefnogaeth a gwblhawyd yn y Gwasanaethau i Oedolion





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| AS10 | COG | GWYRDD | GWYRDD | | Yn ystod 2020/21 mae gwaith y tîm wedi'i flaenoriaethu i fynd i'r afael â galw cynyddol am ofal a chymorth yn dilyn effaith uniongyrchol COVID-19. Yn dilyn ailstrwythuro'r tîm, un tîm sydd bellach yn ymdrin ag adolygiadau blynyddol ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn ac mae wedi rhoi darlun clir o'r galw amdanynt. Mae cyswllt wedi'i flaenoriaethu drwy gydol y flwyddyn drwy system graddio risg ac o ganlyniad cafwyd lefelau cyswllt amrywiol. |
| | Canlyniad | 71.05% | 70.58% | 67.08% | |
| | Targed | 70.00% | 70.00% | | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 4637 | 3738 | 3387 | |
| | Enw. | 6526 | 5296 | 5049 | |

AS11 ⇩
Cyfradd yr oedolion 65+oed sy'n derbyn gofal a chefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion lles fesul 1,000 o'r boblogaeth





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| AS11 | COG | GWYRDD | COCH | | Mae effaith COVID-19 ar iechyd a lles corfforol a meddyliol pobl wedi cynyddu yn ogystal â gofynion cysylltiedig ar gyfer gofal a chymorth, ynghyd â'r gostyngiad yn y rhwydweithiau cymorth i deuluoedd a chymunedol a oedd ar gael oherwydd y cyfyngiadau yn ystod 20/21. |
| | Canlyniad | 90.29 | 106.47 | 113.73 | |
| | Targed | 113.00 | 94.00 | | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 4285 | 5116 | 5541 | |
| | Enw. | 47459 | 48049 | 48720 | |


| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| AS12 ⇩ Cyfradd yr oedolion 18-64 oed sy'n derbyn gofal a chefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion lles fesul 1,000 o'r boblogaeth | COG | GWYRDD | GWYRDD | | Mae effaith COVID-19 ar iechyd a lles corfforol a meddyliol pobl wedi cynyddu yn ogystal â gofynion cysylltiedig ar gyfer gofal a chymorth, ynghyd â'r gostyngiad yn y rhwydweithiau cymorth i deuluoedd a chymunedol a oedd ar gael oherwydd y cyfyngiadau yn ystod 20/21. |
| | Canlyniad | 10.00 | 8.91 | 9.32 | |
| | Targed | 13.00 | 10.50 | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 1507 | 1347 | 1410 | |
| | Enw. | 150659 | 151228 | 151285 | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| AS13a ⇧ Nifer y gofalwyr (18+ oed) a dderbyniodd asesiad gofalwr yn eu rhinwedd eu hunain yn ystod y flwyddyn | COG | OREN | COCH | | Mae nifer y gofalwyr sydd wedi derbyn cynnig asesiad wedi parhau i fod yn isel yn 2020-21. Mae gwaith lleol a rhanbarthol ar y gweill i ddarparu hyfforddiant i staff a hefyd i ymgysylltu â gofalwyr i ddeall y rhesymau dros y nifer isel sy'n manteisio ar yr asesiadau. Bydd y system cofnodi cleientiaid newydd WCCIS hefyd yn ein galluogi i adnabod data gofalwyr yn haws a fydd hefyd yn helpu i wella'r perfformiad hwn. |
| | Canlyniad | 689 | 588 | 209 | |
| | Targed | 700 | 700 | | |
| | Tuedd | Dim Data | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 689 | 588 | 209 | |
| | Enw. | | | | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| AS14 ⇧ Canran y bobl sydd wedi cwblhau eu cyfnod ailalluogi a oedd yn derbyn llai o ofal neu ddim gofal 6 mis ar ôl diwedd y cyfnod ailalluogi | COG | GWYRDD | GWYRDD | | |
| | Canlyniad | 93.14% | 97.05% | 98.95% | |
| | Targed | 80.00% | 80.00% | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 516 | 691 | 563 | |
| | Enw. | 554 | 712 | 569 | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| AS9 ⇧ Canran yr asesiadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a gwblhawyd mewn 21 diwrnod neu lai | COG | COCH | COCH | | |
| | Canlyniad | 56.13% | 64.2% | 75.68% | |
| | Targed | 70.00% | 70.00% | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 1240 | 1316 | 1198 | |
| | Enw. | 2209 | 2049 | 1583 | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw :-2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS11 ⇩ Nifer y plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant (CAP) yr awdurdod lleol ar ddiwedd y cyfnod | COG | | GWYRDD | | Bu rhywfaint o gynnydd yn nifer y plant ar y gofrestr Amddiffyn Plant ar ddiwedd y flwyddyn, gyda thueddiad ar i lawr yn dod i'r amlwg yn ystod y ddeufis diwethaf. Mae hyn yn parhau i gael ei fonitro yn yr adroddiad misol. Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 240 | 258 | 264 | |
|  | Targed | | 260 | | |
| | Tuedd | Dim Data | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 240 | 258 | 264 | |
| | Enw. | | | | |
| CFS14 ⇧ Canran y penderfyniadau a wnaed o ran atgyfeirio am ofal a chefnogaeth a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd a gymerir o fewn 24 awr o dderbyn yr atgyfeiriad | COG | OREN | OREN | | Mae perfformiad yn y maes hwn yn parhau'n gadarnhaol – nid yw'r gostyngiad bach yn destun pryder. Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 99.78% | 99.91% | 98.48% | |
|  | Targed | 100.00% | 100.00% | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 1372 | 1156 | 845 | |
| | Enw. | 1375 | 1157 | 858 | |

CFS16 ⇧
Canran y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 10 niwrnod gwaith o'r gynhadledd amddiffyn plant cychwynnol.





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS16 | COG | GWYRDD | GWYRDD | | Mae gweithgarwch grwpiau craidd yn parhau i fod yn gadarnhaol er gwaethaf yr heriau gyda COVID, ac rydym yn rhagweld gwelliant yn y maes hwn pan gaiff data ei ddilysu ar gyfer Llywodraeth Cymru Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 96.98% | 95.00% | 91.28% | |
| | Targed | 90.00% | 90.00% | | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 321 | 323 | 293 | |
| | Enw. | 331 | 340 | 321 | |

CFS18 ⇩
Nifer y plant sy'n derbyn gofal (PDG) fesul 10,000 o'r boblogaeth 0-17 oed yn Abertawe.





| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS18 | COG | COCH | COCH | | Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 117.19 | 119.94 | 117.05 | |
| | Targed | 107.00 | 110.00 | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 554 | 566 | 550 | |
| | Enw. | 47272 | 47189 | 46988 | |


| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS19 ⇩<br>Nifer y plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol (CAP) fesul 10,000 o'r boblogaeth 0-17 oed yn Abertawe. | COG | GWYRDD | GWYRDD | | Bu gostyngiad cyson tua diwedd y flwyddyn yn nifer y plant ar y gofrestr Amddiffyn Plant, ac mae'n rhywbeth yr ydym yn parhau i'w fonitro yn yr adroddiad misol.<br>Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 50.77 | 54.67 | 56.18 | |
| | Targed | 55.00 | 55.00 | | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 240 | 258. | 264 | |
| | Enw. | 47272 | 47189. | 46988. | |





| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS19a ⇧<br>Canran yr ymweliadau â phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (CAP) nad oedd yn hwyr. | COG | | GWYRDD | | Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 93.18% | 93.85% | 88.19% | |
| | Targed | | 90.00% | | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 205 | 229 | 224 | |
| | Enw. | 220 | 244. | 254 | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS2 ⇩ Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) ar ddiwedd y cyfnod. | COG | | COCH | | Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 554 | 566 | 550 | |
| | Targed | | 520 | | |
| | Tuedd | Dim Data | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 554 | 566 | 550 | |
| | Enw. | | | | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS20 ⇩ Cyfradd y Plant mewn Angen (CiN) gyda chynllun gofal a chefnogaeth i bob 10,000 o boblogaeth 0-17 oed Abertawe ar ddiwedd y cyfnod. | COG | GWYRDD | GWYRDD | | Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 164.58 | 158.51 | 108.75 | |
| | Targed | 205.00 | 170.00 | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 778 | 748. | 511 | |
| | Enw. | 47272 | 47189 | 46988 | |






| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw 2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS20a ⇩ Nifer y plant y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt (CINCS) fesul 10,000 o'r boblogaeth 0-17 oed yn Abertawe. | COG | | GWYRDD | | Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 778 | 748 | 511 | |
| | Targed | | 800. | | |
|   | Tuedd | Dim Data | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 778 | 748. | 511 | |
| | Enw. | | | | |
| CFS23a ⇩ Canran y cysylltiadau â'r Ganolfan GCCh (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth) Plant a Theuluoedd sy'n cael eu trosglwyddo wedyn i'w hasesu'n ffurfiol. | COG | | COCH | | Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 12.36 | 10.79% | 8.11% | |
| | Targed | | 10.00% | | |
|   | Tuedd | Dim Data | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 1375 | 1157 | 858 | |
| | Enw. | 11127 | 10719 | 10574 | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS23b ⇩ Nifer y cysylltiadau â'r Ganolfan GCCh (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth) Plant a Theuluoedd sy'n cael eu trosglwyddo wedyn i'w hasesu'n ffurfiol. | COG | | OREN | | Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 1375. | 1157 | 858 | |
| | Targed | | 1120 | | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 1375. | 1157 | 858 | |
| | Enw. | | | | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS23c ⇩ Canran yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd a dderbyniwyd o fewn 12 mis o'r atgyfeiriad blaenorol. | COG | | GWYRDD | | Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 13.67% | 9.68% | 8.86% | |
| | Targed | | 15.00% | | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 188 | 112 | 76 | |
| | Enw. | 1375 | 1157 | 858. | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| CFS24 ⇩<br>Cyfanswm nifer y plant sydd â chynllun gofal a chefnogaeth ar ddiwedd y cyfnod.<br> | COG | | GWYRDD | | Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 1537. | 1550 | 1303 | |
| | Targed | | 1600 | | |
| | Tuedd | Dim Data | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 1537 | 1550 | 1303 | |
| | Enw. | | | | |
| CIP3 ⇧<br>Nifer y bobl sy'n dal i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol 12 mis ar ôl cael eu hatgyfeirio gan eu meddyg teulu ac sy'n nodi bod eu hiechyd wedi gwella<br> | COG | GWYRDD | COCH | | Gohiriwyd rhaglen NERS oherwydd COVID; darparwyd y rhan fwyaf o'r rhaglenni a'r ymrwymiadau ar-lein neu dros y ffôn a oedd yn cynnal ymgysylltiad â grwpiau ac unigolion craidd. |
| | Canlyniad | 295 | 262 | 274 | |
| | Targed | 158 | 295 | | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 295 | 262. | 274 | |
| | Enw. | | | | |

**Mesur 18** ⇧
Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mesur 18 | COG | GWYRDD | OREN | | |
| | Canlyniad | 90.40% | 85.82% | 94.34% | |
| | Targed | 90.00% | 90.00% | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 970 | 1035 | 1084 | |
| | Enw. | 1073 | 1206 | 1149 | |


**Mesur 24 (PAM028)** ⇧
Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| Mesur 24 (PAM028) | COG | COCH | COCH | | Mae perfformiad yn y maes hwn yn parhau i fod yn her, ac mae bellach yn cael ei fonitro'n wythnosol ac yn fisol mewn ymgais i wella perfformiad. Dechreuodd tueddiad ar i fyny o welliant ddod i'r amlwg ym mis Rhagfyr. Rydym yn rhagweld y bydd gwelliant yn y maes hwn pan gaiff data ei ddilysu ar gyfer Llywodraeth Cymru. Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 78.05% | 75.61% | 67.84% | |
| | Targed | 90.00% | 90.00% | | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 729 | 865 | 462 | |
| | Enw. | 934 | 1144 | 681 | |


| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|

Mesur 27 ⇩
Canran yr ailgofrestriadau ar gofrestrau amddiffyn plant (CAP) awdurdodau lleol ar ddiwedd y cyfnod.







| Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|
| COG | | GWYRDD | | Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| Canlyniad | 8.51% | 6.89% | 3.51% | |
| Targed | | 20.00% | | |
| Tuedd | Dim Data | GWELLA | GWELLA | |
| Rhif. | 28. | 23 | 2. | |
| Enw. | 329 | 334. | 57 | |

Mesur 28 ⇩
Hyd amser y plant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd




| Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|
| COG | GWYRDD | GWYRDD | | Er y bu cynnydd yn nifer cyfartalog y diwrnodau ar y gofrestr, mae hyn yn dal i fod o fewn yr ystod darged. Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| Canlyniad | 238.37 | 264.00 | 278.89 | |
| Targed | 300.00 | 300.00 | | |
| Tuedd | DIRYWIO | DIRYWIO | DIRYWIO | |
| Rhif. | 81522. | 83326 | 86178 | |
| Enw. | 342. | 316 | 309. | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| PAM029 (Mesur 33) ⇩ Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) ar ddiwedd y cyfnod sydd wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn (SCC004 yn flaenorol) | COG | COCH | GWYRDD | | Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 11.55% | 10.07% | 6.55% | |
|  | Targed | 7.00% | 12.00% | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 64 | 57 | 36 | |
| | Enw. | 554 | 566 | 550 | |
| SCC013ai ⇧ Canran y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (CAP) ar ddiwedd y cyfnod a neilltuwyd i weithiwr cymdeithasol | COG | | GWYRDD | | Mae hyn yn debygol o fod yn gamgymeriad cofnodi na chafodd ei gywiro ar Paris, cyn i'r system gael ei newid i ddarllen yn unig, gan fod yr achos yn cael ei glustnodi i Ddarpar Weithiwr Cymdeithasol gyda Gweithiwr Cymdeithasol yn cydweithio. Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 100.00% | 100.00% | 99.62% | |
|  | Targed | | 100.00% | | |
| | Tuedd | Dim Data | SEFYDLOG | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 240 | 258 | 263 | |
| | Enw. | 240 | 258 | 264. | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| SCC013aii<br>Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal ar ddiwedd y cyfnod a neilltuwyd i weithiwr cymdeithasol | COG | | GWYRDD | | Dros dro yn amodol ar ddilysu. |
| | Canlyniad | 99.28% | 100.00% | 100.00% | |
|  | Targed | | 100.00% | | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | SEFYDLOG | |
| | Rhif. | 550 | 566 | 550 | |
| | Enw. | 554 | 566 | 550 | |

## Addysg a Sgiliau 17-22

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddifrifol ar berfformiad mewn addysg, yn enwedig ar gyfer grwpiau blwyddyn arholiad. Ym mlwyddyn academaidd 2019-2020 disodlwyd arholiadau cyfnod allweddol 4 gan raddau a aseswyd gan y ganolfan, gan ei gwneud yn anodd cymharu â pherfformiad blaenorol. Cafodd y broses casglu a choladu canlyniadau asesu athrawon ar gyfer y cyfnodau allweddol cynharach ei chanslo gan Lywodraeth Cymru yn 2020, ac mae hefyd wedi'i chanslo ar gyfer 2021.

Effeithiwyd yn negyddol ar bresenoldeb yn ystod blwyddyn y pandemig. Ar adegau mae wedi bod yn fwy diogel i ddisgyblion gael eu haddysgu gartref. Mae effaith hunanynysu wedi cael effaith negyddol barhaus ar bresenoldeb mewn ysgolion. Mae Swyddogion Lles Addysg yn parhau i fonitro'n ofalus a chefnogi teuluoedd i anfon plant yn ôl i ysgolion.

Ni chynhaliwyd y casgliad arferol o ddata presenoldeb gan Lywodraeth Cymru yn 2020, a bydd hefyd yn cael ei atal dros dro ar gyfer 2021. Yn ystod y pandemig, cefnogwyd ysgolion yn dda gyda'u darpariaeth ar gyfer dysgu o bell. Pan gynyddodd yr amhariad i ddysgu ar y safle, cafwyd rhagor o gymorth i sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at gyfuniad o gyfleoedd dysgu ac addysgu. Darparwyd addysg er gwaethaf absenoldeb mewn ysgolion.

Mae lefel y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) wedi gwella o'r flwyddyn flaenorol. Dros dro, cofnodwyd bod 1.4% o'r rheini a adawodd Blwyddyn 11 yn 2020 yn NEET, ond nid oes disgwyl cyhoeddi'r mesur hwn yn swyddogol tan fis Mai 2021. Mae'r prosiect Cynnydd yn parhau i gefnogi plant sydd mewn perygl o fod yn NEET, gan ddarparu ymyriadau pwrpasol i ddisgyblion unigol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 i'w hatal rhag colli diddordeb mewn dysgu.


Fodd bynnag, rhagwelir y gallai'r tarfu ar addysg effeithio ar niferoedd NEET yn y dyfodol. Mae partneriaeth NEET newydd bellach yn cwrdd â'r nod clir o leihau nifer y plant NEET. Oherwydd y pandemig, gohiriwyd y gwelliannau a gynlluniwyd ar gyfer y Proffiliau Asesu Bod yn Agored i Niwed (VAP), offeryn a all helpu i asesu NEET yn y dyfodol, ond disgwylir iddynt bellach gael eu cynnal yn hydref 2021.


Mae nifer y datganiadau a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos wedi bod yn faes i'w wella'n barhaus. Fodd bynnag, bydd mesurau perfformiad mwy perthnasol yn cael eu cyflwyno'r flwyddyn nesaf wrth i'r system drosglwyddo o ddatganiad i gynlluniau datblygu unigol. Mae gwelliannau i systemau o fewn cyd-destun heriol effeithiau COVID-19, yn parhau. Mae blaenoriaethau Cynllun Strategol ADY Abertawe, gan gynnwys newidiadau sydd eu hangen i fodloni goblygiadau Deddf ADYTA 2018, yn datblygu'n dda, er gwaethaf y pandemig. Mae system TG newydd (CACI Impulse) wedi'i chaffael i reoli'r broses o ran creu a rheoli CDUau; bydd hyn hefyd yn cael ei defnyddio i fapio'r ddarpariaeth a lleihau'r rhan fwyaf o'r gwaith papur presennol sy'n gysylltiedig â'r system bresennol.


Mae Partneriaeth Sgiliau Abertawe (PSA) yn parhau i gwrdd, er gwaethaf COVID-19. Nod PSA, grŵp sy'n cynnwys Aelodau, swyddogion yr ALI a chynrychiolwyr o Addysg Bellach ac Addysg Uwch yw gweithio tuag at nifer o gamau i gyflawni'r amcanion lles yn y cynllun corfforaethol, gan gynnwys sicrhau bod y sgiliau a'r cymwysterau y mae plant a phobl ifanc yn eu cyflawni yn bodloni dyheadau tymor hwy'r ddinas, gan gynnwys y rhai a fydd yn deillio o Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

Wrth edrych ymlaen, bydd asesu llesiant emosiynol a meddyliol plant a staff mewn ysgolion yn ystyriaeth allweddol yn y dyfodol. Mae gweithredu Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018 ym mis Medi 2021 a Chwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022 dan Genhadaeth ein Cenedl Llywodraeth Cymru, yn erbyn cyd-destun heriol o ailosod addysg eisoes wedi dylanwadu ar fframwaith perfformiad y Gyfarwyddiaeth Addysg. Bydd yn arbennig o bwysig monitro effaith gwasanaethau i ddysgwyr sy’n agored i niwed oherwydd profiad niweidiol yn ystod plentyndod, tlodi, anghenion dysgu ychwanegol, llesiant meddyliol ac anabledd.


Perfformiad corfforaethol o'i gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw :-2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| BBMA4 ⇧ Prentisiaethau – nifer y prentisiaethau neu hyfforddeion a ddechreuodd yn y cyngor | COG | COCH | GWYRDD | | |
| | Canlyniad | 36 | 17 | 38 | |
|  | Targed | 50 | 16 | | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 36. | 17. | 38 | |
| | Enw. | | | | |
| EDU008c ⇧ Nifer y gwaharddiadau parhaol ar gyfer ysgolion uwchradd. | COG | | | | 2020 Blwyddyn Academaidd |
| | Canlyniad | | 28 | 17 | |
| | Targed | | | | |
| GRAFF HEB EI ARDDANGOS - AIL FLWYDDYN O ADRODD YN LLAWN | Tuedd | | Dim Data | GWELLA | |
| | Rhif. | | 28 | 17 | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw :-2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| EDU010c ⇧<br>Cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol fesul 1000 o ddisgyblion ar gyfer ysgolion uwchradd. | COG | | GWYRDD | | Mae'r enwadur ar gyfer y DP hwn wedi'i gymryd o'r system UN gan fod CYBLD 2021 wedi'i ohirio. Gallai hyn olygu gwahaniaeth bach i'r canlyniad cyffredinol. |
| | Canlyniad | | 61.98 | 16.67 | |
| GRAFF HEB EI ARDDANGOS - AIL FLWYDDYN O ADRODD YN LLAWN | Targed | | 60.00 | | |
| | Tuedd | | Dim Data | GWELLA | |
| | Rhif. | | 759 | 236 | |
| | Enw. | | 12246 | 14160 | |
| EDU015a ⇧<br>Canran y datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) terfynol a roddwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau | COG | | COCH | | Mae ailstrwythuro newydd yn yr Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dechrau dwyn ffrwyth. Arweiniodd y cyfuniad o staff newydd a chanlyniadau'r pandemig (h.y. peidio â chaniatáu i ni dderbyn cyngor meddygol a gorfod digideiddio ffeiliau yn nhymor yr hydref er mwyn gweithio o bell) at heriau yn ystod y 3 chwarter cyntaf. Gwnaed gwelliannau sylweddol yn chwarter 4 wrth i'r timau ddechrau ymsefydlu. |
| <br> | Canlyniad | | 5.03% | 11.92% | |
| | Targed | | 80.00% | | |
| | Tuedd | | Dim Data | GWELLA | |
| | Rhif. | | 10 | 23 | |
| | Enw. | | 199 | 193 | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw :-2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| EDU015b ⇧<br>Canran y datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) terfynol a roddwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau | COG | | COCH | | Fel yr uchod |
| | Canlyniad | | 13.7% | 35.9% | |
| | Targed | | 90.00% | | |
| | Tuedd | | Dim Data | GWELLA | |
| | Rhif. | | 10 | 23 | |
| | Enw. | | 73 | 64 | |
| PAM034 ⇧<br>Canran y disgyblion blwyddyn 11 a gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (iaith gyntaf)<br><br>GRAFF HEB EI ARDDANGOS - AIL FLWYDDYN O ADRODD YN LLAWN | COG | OREN | OREN | | Mae'r gostyngiad ar gyfer 2020 yn deillio o faint carfan grŵp eleni yn yr ysgolion uwchradd Cymraeg. Mae bron pob disgybl sy'n mynychu ysgolion uwchradd Cymraeg yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg (iaith gyntaf). |
| | Canlyniad | 10.62% | 11.22% | 10.72% | |
| | Targed | 10.80% | 11.44% | | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 248 | 274 | 263 | |
| | Enw. | 2335 | 2441 | 2453 | |



| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| POV07 ⇧<br>Nifer yr wythnosau o hyfforddiant i weithwyr newydd a gyflawnwyd drwy'r cymalau budd cymunedol | COG | GWYRDD | GWYRDD | | Oherwydd y prosiectau adfywio enfawr yng nghanol y ddinas (yn enwedig prosiect datblygu'r Arena a'r prosiect Cyfuno). Bydd y ddau brosiect yn dod i ben yn ystod haf 2021 |
| | Canlyniad | 2004 | 2603 | 6380 | |
| | Targed | 1500 | 1500 | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 2004 | 2603 | 6380 | |
| | Enw. | | | | |



Er gwaethaf pandemig byd-eang COVID-19, mae'r mwyafrif helaeth o'n targedau wedi'u cyrraedd yn 2020/21. Fodd bynnag, mae rhai targedau wedi dangos tuedd ddirywiol o'i chymharu â pherfformiad y llynedd, oherwydd effaith y pandemig. Un enghraifft o hyn yw nifer y prosiectau sydd â chymalau budd cymdeithasol yn eu contractau. Er bod y targed wedi'i ragori, mae nifer y prosiectau â chymalau y mae'r gwaith wedi dechrau arnynt wedi gostwng o'i gymharu â'r llynedd, oherwydd oedi sy'n gysylltiedig ag effaith COVID-19 ar y safle. Yn yr un modd, roedd canran yr holl geisiadau cynllunio a bennwyd o fewn 8 wythnos hefyd wedi cyrraedd y targed, ond effeithiwyd ar y duedd a'r perfformiad gan newidiadau i arferion gwaith yn gynnar yn y flwyddyn oherwydd pandemig COVID-19 ac oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd yn ystod y chwarter diwethaf.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein prif flaenoriaethau adfywio wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol ar y safle. Mae gwaith Bae Copr wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'r arena, y bloc preswyl, y maes parcio aml lawr, gwaith dur uwchstrwythur neuadd yr eglwys i gyd wedi'u codi. Roedd tynnu'r bont segur a gosod y bont newydd hefyd yn gyflawniad mawr eleni. Bydd y rhaglen adeiladu 82 wythnos yn cael ei chwblhau yn 2021, ond bydd rhywfaint o oedi oherwydd COVID-19 yn anochel o ystyried cyfyngiadau gweithio gan gadw pellter cymdeithasol ar y safle. Mae gwaith dylunio a dichonoldeb Cam 2 Bae Copr, gan gynnwys y potensial ar gyfer canolfan sector cyhoeddus, wedi gwneud cynnydd da, fodd bynnag nid yw'r amseriad ar unrhyw gyhoeddiad sy'n ymwneud â rhaglen Hybiau'r llywodraeth yn hysbys ar hyn o bryd. Fel ateb dros dro, mae cynllun mannau cyhoeddus dros dro wedi'i gynllunio i'w ystyried gan y Cabinet.

Mae gwaith caffael Adfywio Abertawe wedi parhau'n gyflym drwy gydol y pandemig, gan gwblhau cam deialog cystadleuol y broses. Yn y cyfamser, mae prosiect isadeiledd Ffordd y Brenin wedi cael ei gwblhau'n ymarferol, gyda gwaith i gywiro mân ddiffygion cytundebol wedi'i drefnu ar gyfer gwanwyn 2021. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer adeilad Canolfan Gyflogaeth Ffordd y Brenin ac mae'r gwaith caffael contractwr bron â'i gwblhau, gydag adroddiad dyfarnu contract wedi'i ddrafftio i'w ystyried gan y Cabinet. Mae gwaith ar Wind Street wedi dechrau ar y safle ac mae'n gwneud cynnydd da. Mae'r contract gwaith ar gyfer contract Pwerdy Gwaith Copr yr Hafod hefyd wedi'i ddyfarnu ac mae cynnydd da yn cael ei wneud ar y safle. Cwblhawyd y gwaith i ddod i feddiant Theatr y Palace yn dilyn cais llwyddiannus am grant ac mae gwaith dylunio a chaffael ar y gweill. Rydym hefyd wedi cyflawni amrywiaeth o welliannau i Farchnad Abertawe gan gynnwys gosod toiledau cyhoeddus newydd a chyfleuster Changing Places, uwchraddio goleuadau a gosod paneli solar. Mewn ymateb i effeithiau economaidd lleol y pandemig rydym wedi cefnogi busnesau gydag amrywiaeth o grantiau, gan gynnwys y grant addasiadau awyr agored. Lansiwyd Ymgyrch Siopa'n Lleol hefyd ym mis Tachwedd i annog arferion gwario lleol gan gadw arian yn economi Abertawe.

Wrth edrych ymlaen at y tymor canolig, ystyrir bod cyflawni a momentwm parhaus rhaglen adfywio'r cyngor yn elfen hanfodol o'r broses adfer economaidd a bydd prosiectau pellach yn cael eu hychwanegu, yn amodol ar gyllid ychwanegol gan gyllid ysgogi economaidd y llywodraeth. Gyda hyn mewn golwg, cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb ailbwrpasu i nodi cyfleoedd i adfywio canol y ddinas yn sgil yr effaith pandemig COVID-19 ar fanwerthu. Mae cynllun gweithredu'n cael ei baratoi i nodi ymyriadau allweddol. Mae hyn yn cysylltu â Chynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe a baratowyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ac y cytunwyd arno gan y Cabinet fel rhan o strategaeth adfer COVID-19 ehangach y cyngor. Mae'r cyngor hefyd wedi bod yn arwain y gwaith o adnewyddu'r Strategaeth Adfywio Economaidd Ranbarthol mewn cydweithrediad ag awdurdodau eraill yn y rhanbarth. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ddiweddarach eleni a bydd yn darparu cynllun cyflawni economaidd i lywio buddsoddiad prosiect trawsnewidiol yn y rhanbarth, gan ddefnyddio arian o raglen Cronfa Ffyniant Gyffredin llywodraeth y DU a ragwelir yn y dyfodol.

Effeithiwyd ar Raglen Gyfalaf SATC ar gyfer 2020/21 gan bandemig COVID a oedd yn cyfyngu ar allu'r cyngor i gyflawni gwaith cynlluniedig i feddiannu anheddau presennol. Cydnabuwyd hyn gan Lywodraeth Cymru ac mae Cyngor Abertawe wedi cael 12 mis arall i gyflawni ei Raglen Cydymffurfio â SATC. Y dyddiad cwblhau diwygiedig bellach yw 31 Rhagfyr 2021.

Er gwaethaf cyfyngiadau symud COVID a'r effaith ar arferion gwaith diogel diwygiedig sy'n cyfyngu ar adnoddau llafur sy'n cyflawni gwaith y tu mewn i gartrefi preswylwyr a mannau allanol cyfyngedig, cyflawnodd y cyngor wariant llawn o'i gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu ar gyfer COVID, sef £33m ar gyfer y flwyddyn ariannol yn erbyn ei darged gwreiddiol o £45m, a bennwyd cyn dechrau'r pandemig. Diben y buddsoddiad oedd sicrhau bod cartrefi mewn cyflwr da, yn effeithlon yn thermol, yn ddiogel ac yn diwallu anghenion unigolion. Yn ystod y flwyddyn ariannol, cyflwynodd y cyngor 870 o geginau ac ystafelloedd ymolchi newydd. Cwblhawyd atgyweiriadau a gwelliannau allanol mawr i 280 o eiddo sy'n cynnwys gosod toeau newydd, estyll tywydd a nwyddau dŵr glaw ynghyd â rendradau wedi'u hinswleiddio a gwaith uwchraddio inswleiddio eraill. Cyflwynwyd mesurau ynni effeithlon eraill fel gosod 350 o foeleri cyfuniad perfformiad uchel. Cynhaliwyd gwaith cynnal a chadw a gwella ar 1,600 o erddi i wella diogelwch eiddo er budd preswylwyr. Mae gwaith gwella diogelwch tân wedi parhau ac mae systemau taenellu dŵr pellach wedi'u gosod mewn blociau uchel o fflatiau a chyfadeiladau tai lloches. Mae gwaith gosod systemau larwm mwg a gaiff eu monitro o bell hefyd yn cael ei gyflwyno mewn cyfadeiladau tai lloches. Mae gwaith diogelwch arferol arall fel gwaith adnewyddu ail-wifro trydanol wedi'i wneud i sicrhau bod gosodiadau'n cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n bodoli. Mae’r uchod yn cynnwys rhai yn unig o'r prif ffrydiau gwaith a gyflwynwyd yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n cynrychioli rhaglen lawer ehangach o waith atgyweirio, cynnal a chadw a gwelliannau sy'n ffurfio'r rhaglen gyfalaf gyflawn.

Cyfrannodd raglen gyffredinol SATC yn sylweddol tuag at fanteision cymunedol a chyfleoedd cyflogaeth. Erbyn diwedd 2020/21, creodd rhaglen SATC 1,645 wythnos o recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu yn benodol ar gyfer pobl a oedd yn ddi-waith ac yn profi rhwystrau wrth gael mynediad at y farchnad swyddi ac mae 18 o bobl o'r gymuned leol wedi'u cyflogi yn y cyfnod hwn. Yn ogystal, mae 18 o brentisiaid sy'n ymwneud â gwaith SATC wedi gweld eu cyflogaeth yn parhau gyda phrosiectau parhaus. Hyd yma, mae 34 o offer mesur budd cymunedol wedi'u cyflwyno mewn perthynas â gwaith a wnaed fel rhan o SATC.

Mae Rhaglen Rhagor o Gartrefi'r cyngor, sy'n canolbwyntio ar ddarparu tai cyngor newydd, yn edrych ar ddyhead cyflwyno 10 mlynedd o 1,000 o dai fforddiadwy newydd. Trosglwyddwyd y safle ym Mharc yr Helyg sy'n cynnwys 16 o gartrefi newydd ym mis Medi 2020 a chwblhawyd Cam 2 Colliers Way, safle sy'n cynnwys 18 o gartrefi newydd ym mis Ebrill. Fel rhan o'r cam hwn, mae 34 o gartrefi newydd wedi'u hadeiladu fel 'Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer' gan ddefnyddio £1.5m o gyllid o grant Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru. Mae gan y cartrefi nodweddion arloesol fel paneli solar ac ynni sy'n cael ei bweru gan fatris, yn ogystal â chynnwys briciau nythu ar gyfer gwenoliaid du i gefnogi bioamrywiaeth. Cwblhawyd gwaith hefyd i drosi hen adeilad gwasanaethau cymdeithasol yn West Cross yn 2 gartref teuluol newydd, a drosglwyddwyd ym mis Rhagfyr 2020.

Mae gwaith yw cael ei wneud ar 25 o gartrefi eraill ar Hill View Crescent yn y Clâs. Dyfarnwyd £1.5m o Gyllid Tai Arloesol i'r cynllun hwn hefyd, a bydd hyn yn ariannu'r technolegau adnewyddadwy i barhau â'r thema Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer. Bydd hwn hefyd yn safle ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, a bydd yn rhoi cyfle i adfywio'r ardal.


Mae'r cyngor hefyd yn datblygu 8 cartref un ystafell wely ar hen safle addysg yn Uplands. Bydd gwaith hefyd yn dechrau yn West Cross i ddatblygu 6 byngalo, a 10 cartref arall yn y Clâs. Mae'r holl gynlluniau hyn wedi'u hariannu drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cynghorau wrth fynd i'r afael â digartrefedd drwy'r pandemig. Mae'r cyllid hwn hefyd wedi galluogi prynu 20 o unedau un ystafell wely. Mae 3 chartref ychwanegol hefyd wedi'u prynu a'u haddasu, a byddant yn cael eu defnyddio i gartrefu teuluoedd neu aelwydydd y mae angen llety wedi'i addasu arnynt.



Mae'r cyngor hefyd yn datblygu'r broses o gaffael partner neu bartneriaid datblygu i ddarparu tai daliadaeth gymysg ar safleoedd sy'n eiddo i'r cyngor, wrth wneud y defnydd mwyaf o'r ddarpariaeth tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. Mae'r cyngor hefyd wedi caffael tîm amlddisgyblaethol i ddarparu uwchgynllun ar gyfer adfywio safle mawr sy'n eiddo i'r Adran Tai. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, ond ymestynnwyd yr amserlen wrth i'r digwyddiadau ymgynghori i breswylwyr, ymweliadau safle ac arolygon a drefnwyd gael eu gohirio oherwydd COVID.

Mae 2020/21 wedi cyflwyno heriau digynsail i'r sector Hamdden a Diwylliannol. Yn dilyn y cyfnod clo cyntaf, aeth aelodau'r tîm ati i gefnogi'r gymuned, gan arwain gwasanaethau i'r rheini a oedd yn gwarchod neu heb gymorth teulu; trefnu dosbarthiad bwyd a gwirfoddoli yn y cymunedau. Datblygodd ffyrdd newydd o weithio o ganlyniad, gyda gwaith prosiect yn parhau yn ystod y cyfnod hwn gyda'r trydydd sector a chydweithwyr yn yr adrannau Tlodi a'i Atal, Cydlynu Ardaloedd ac Iechyd. Arweiniodd gwaith y gwasanaeth ar gyfer y rhaglen beilot Ewropeaidd 'Agenda21: Diwylliant mewn Dinasoedd Cynaliadwy', at wireddu partneriaeth gyda Chyngor Hil Cymru i greu canolfan aml-ddiwylliannol a digidol newydd yn Adain y Celfyddydau yn Theatr y Grand, a'r ymrwymiad i amrywiaeth yn y gwasanaeth drwy 'Adduned'. Cydnabuwyd y gwaith hwn fel arfer da gan y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus pan gyrhaeddodd y gwasanaeth y rhestr fer ar gyfer eu gwobr flynyddol, Tîm Gwasanaeth Hamdden a Diwylliannol y Flwyddyn, gan gyfrannu at y set ehangach o wasanaethau ar y rhestr fer a roddodd y cyngor ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Cyngor y Flwyddyn.


Mae'r addewid i arallgyfeirio a chydnabod ein holl gymunedau yn ein rhaglennu diwylliannol hefyd yn gosod y fframwaith ar gyfer adolygiad, a gynhelir gan y gwasanaeth, i enwau strydoedd a lleoedd y ddinas, henebion, cerfluniau a digwyddiadau coffa eraill, mewn ymateb i ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys a chynnig dilynol y cyngor. Bydd y gwaith hwn yn parhau mewn partneriaeth â'r gymuned, i adeiladu adnodd ar gyfer comisiynu ac enwi strydoedd yn y dyfodol - gyda'r cyntaf yn cael ei gymhwyso i lwybr newydd y bont - Cupid Way - yng nghanol y ddinas. Cyflwynwyd a goresgynnwyd heriau drwy lacio'r cyfyngiadau symud a'u hailgyflwyno wrth i leoliadau baratoi a sefydlu eu hunain ar gyfer ailagor, dim ond i'w cau eto rai misoedd yn ddiweddarach. Effeithiwyd yn arbennig ar yr adran Theatr a Digwyddiadau wrth i'r rhain symud i ymgysylltu ar-lein, fel Sioe Awyr Cymru a Gorymdaith y Nadolig ar-lein, yn ogystal â nifer o sgyrsiau, gweithdai, arddangosfeydd rhithwir a rhaglenni dysgu. Fodd bynnag, crëwyd gwefannau a llwyfannau newydd, gan gynnwys lansio safle newydd ar gyfer Oriel Gelf Glynn Vivian ac ailfrandio cyfan ar gyfer Theatr y Grand, gyda gwefan a system archebu llawer gwell - gan ymdrin â'r holl leoliadau a digwyddiadau fel strategaeth 'Swyddfa Docynnau Abertawe' ar gyfer ymgysylltu a gwerthu digidol wrth symud ymlaen. Roedd yr holl leoliadau yn destun gwaith y tu ôl i'r llenni, gydag Adain y Celfyddydau'n cael ei huwchraddio a llawr Neuadd Brangwyn yn cael ei adnewyddu'n llwyr i baratoi ar gyfer croesawu ein partneriaid a'n digwyddiadau yn ôl i'n lleoliadau. Darparwyd cymorth pellach i fusnesau drwy gyrchu grantiau llawrydd a'u hyrwyddo i'r rheini yn y diwydiannau creadigol, a busnesau yng nghanol y ddinas ac ardaloedd i alluogi masnachu yn yr awyr agored, cyfleoedd iechyd a lles, gan gynnwys creu 'parthau bwyd' yn Singleton a'r Mwmbwls. Parhaodd Parklives a'r rhaglen Genedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff ar-lein, a ganmolwyd gan bartneriaid ar draws y rhanbarth, a chytunwyd ar gyllid i'r rhain barhau y flwyddyn nesaf. Y nod yw y bydd yr hyn a aildrefnwyd o'r llynedd yn mynd yn ei flaen yn ystod y misoedd nesaf a gall cyfleoedd newydd ar gyfer digwyddiadau newydd, comisiynau a strategaeth ddiwylliannol newydd fynd rhagddynt hefyd.


Perfformiad corfforaethol o'i gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| BBMA1 ⇧<br>Nifer y proseictau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol | COG | GWYRDD | GWYRDD | | Er bod nifer y prosiectau â chymalau Y Tu Hwnt i Frics a Morter yn uwch na'r targed, mae'r prosiectau sy'n dechrau ar y safle wedi gostwng o gymharu â'r llynedd (gallai COVID gael effaith oherwydd oedi ar y safle). |
| | Canlyniad | 20 | 27 | 23 | |
|  | Targed | 20 | 20 | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 20 | 27 | 23 | |
| | Enw. | | | | |
| CTT4 ⇧<br>Twristiaeth – cyfanswm effaith economaidd Twristiaeth i Abertawe (£m) | COG | GWYRDD | GWYRDD | | Cyfyngiadau COVID ar ymwelwyr a chau llety twristiaeth. |
| | Canlyniad | 447.74 | 461.48 | 143.09 | |
|  | Targed | 424.12 | 456.69 | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 447.74 | 461.48 | 143.09 | |
| | Enw. | | | | |

| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw 2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| EC2 ⇧ Canran yr holl geisiadau o bwys ag ysgogiad economaidd a gymeradwyir. | COG | GWYRDD | OREN | | |
| | Canlyniad | 94.29% | 81.48% | 100.00% | |
| | Targed | 90.00% | 85.00% | | |
| | Tuedd | GWELLA | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | 33 | 22 | 13 | |
| | Enw. | 35 | 27 | 13 | |
| EC5 ⇧ Cyfanswm yr arwynebedd llawr masnachol (m2) sydd wedi'i greu yng nghanol y ddinas ar gyfer creu swyddi | COG | | COCH | | |
| | Canlyniad | 0 | 1001 | 2056 | |
| | Targed | | 1315 | | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 0 | 1001 | 2056 | |
| | Enw. | | | | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| EC6 ⇧ Crëwyd nifer o unedau tai newydd yng Nghanol Dinas Abertawe o ganlyniad i gyllid y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio. | COG | | COCH | | |
| | Canlyniad | 0 | 15 | 70 | |
| | Targed | | 39 | | |
| | Tuedd | Dim Data | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 0 | 15 | 70 | |
| | Enw. | | | | |





| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| EC7 ⇩ Amserlen gyfartalog y Chwiliadau Prisiannau Tir a gwblhawyd yn ystod y cyfnod | COG | | GWYRDD | | |
| | Canlyniad | | 4.74 | 3.59 | |
| | Targed | | 10.00 | | |
| | Tuedd | | DIRYWIO | GWELLA | |
| | Rhif. | | 4.74 | 3.59 | |
| | Enw. | | | | |



| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| EP28 ⇧<br>Canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn 8 wythnos | COG | GWYRDD | GWYRDD | | Cyrhaeddwyd y targed ond effeithiwyd ar berfformiad gan newidiadau i arferion gwaith yn gynnar yn y flwyddyn oherwydd pandemig COVID-19 ac oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd yn ystod y chwarter diwethaf. |
| | Canlyniad | 89.11% | 89.53% | 82.87% | |
| | Targed | 80.00% | 80.00% | | |
| | Tuedd | GWELLA | GWELLA | DIRYWIO | |
| | Rhif. | 1694 | 1718 | 1369 | |
| | Enw. | 1901 | 1919 | 1652 | |




| Dangosydd Perfformiad | Allwedd | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020/2021 | Sylw -2020/2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| ESD1 ⇧<br>Gwerth mewnfuddsoddi sy'n ymwneud â phrosiectau eiddo lle mae'r awdurdod yn berchen ar ychydig o'r tir neu'r tir cyfan (neu dir cyfagos sy'n hwyluso'r datblygiad) | COG | COCH | GWYRDD | | |
| | Canlyniad | 12.2 | 42.0 | 72.0 | |
| | Targed | 31.0 | 37.0 | | |
| | Tuedd | DIRYWIO | GWELLA | GWELLA | |
| | Rhif. | 12.2 | 42.0 | 72.0 | |
| | Enw. | | | | |



# Trechu Tlodi 17-22

Mae'r cynllun corfforaethol yn nodi ymrwymiad y cyngor i Drechu Tlodi er mwyn sicrhau y gall pob person yn Abertawe gyflawni ei botensial. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, mae'r Strategaeth Trechu Tlodi gorfforaethol yn sicrhau bod Trechu Tlodi yn fusnes i bawb.

Effaith COVID-19 - Trechu Tlodi

Mae effaith economaidd pandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y rheini sydd eisoes yn profi tlodi ac mae'n gyrru'r rheini a oedd mewn perygl o dlodi, i dlodi.
Canfu adroddiad, a gyhoeddwyd gan Sefydliad Bevan ym mis Chwefror 2021 a oedd yn edrych ar brofiadau gwahanol o dlodi yn ystod Gaeaf 2020:
-Mae incwm wedi gostwng: Mae 24% o aelwydydd Cymru wedi gweld eu hincwm yn gostwng o ganlyniad i'r pandemig.
-Mae llawer o aelwydydd wedi gweld eu costau byw yn cynyddu: Mae 41% yn gwario mwy ar wresogi, trydan a/neu ddŵr, mae 38% yn gwario mwy ar fwyd ac mae 16% yn gwario mwy ar gostau neu ddyfeisiau rhyngrwyd i gael mynediad at y rhyngrwyd.
